**EUR 07-02(cof)**

# Y PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD AC ALLANOL

## COFNODION

| | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad:** | 5 Rhagfyr 2002 | |
| **Amser:** | 2.00pm | |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol | |
| **Yn bresennol:** | **Aelodau** | |
| | Tom Middlehurst (Cadeirydd) | Llafur: Alun a Glannau Dyfrdwy |
| | Nicholas Bourne | Ceidwadwr: Y Canolbarth a'r Gorllewin |
| | Rosemary Butler | Llafur: Gorllewin Casnewydd |
| | Christine Chapman | Llafur: Cwm Cynon |
| | Mike German | Democrat Rhyddfrydol: Dwyrain De Cymru |
| | Ieuan Wyn Jones | Plaid Cymru: Ynys Môn |
| | Rhodri Morgan | Llafur: Gorllewin Caerdydd |
| | Rhodri Glyn Thomas | Plaid Cymru: Dwyrain Caerfyrddin & Dinefwr |
| | Phil Williams | Plaid Cymru: Dwyrain De Cymru |
| | **Gwahoddedigion Sefydlog** | |
| | Glenn Vaughan | Cyfarwyddwr Dros Dro, Canolfan Ewropeaidd Cymru |
| | **Gwahoddedigion** | |
| | Llysgennad y Weriniaeth Tsiec yn y DU | |
| | **Yn bresennol** | |
| | Phil Bird | Yr Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol |
| | Jackie Brown | Pennaeth yr Uned Rhaglenni Ewropeaidd |

| | |
|---|---|
| Des Clifford | Swyddfa'r Cynulliad ym Mrwsel |
| Gary Davies | Pennaeth yr Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol |
| Claire Bennett | Clerc y Pwyllgor |
| Lara Date | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**14.00- 14.05**

**Eitem 1**

**Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a datganiadau o fuddiant.**

1. Croesawodd y Cadeirydd newydd bawb i'r pwyllgor, yn enwedig Dr Pavel Seifter, Llysgennad y Weriniaeth Tsiec yn y DU, a siaradodd am ehangu a chysylltiadau rhwng Cymru a'r Weriniaeth Tsiec.
2. Daeth ymddiheuriadau i law oddi wrth John Griffiths AC, Jonathan Morgan AC, yr ASE Jill Evans, Jonathan Evans, Glenys Kinnock, Eluned Morgan ac Eurig Wynn, y gwahoddedigion sefydlog Janet Davies AC, Rosa D'Sa, y Cynghorydd Jon Huish a Brian Curtis, aelod newydd y Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol.

**14.05 – 14.20**

**Eitem 2**

**Adroddiad y Gweinidog**

**Papur: EUR 07-02(p1)**

1. Aeth y Dirprwy Brif Weinidog i'r afael â rhai pwyntiau yn ei adroddiad ysgrifenedig.
2. Roedd yn hwb pwysig i Gymru fod y Prif Weinidog wedi cael gwahoddiad i chwarae rôl allweddol yn y trafodaethau ar bolisi rhanbarthol yr UE fel rhan o Bwyllgor y Rhanbarthau Morol ac Ymylol (CMPR).
3. Roedd y gwaith o gadw at y terfynau amser o ran trosglwyddo cyfarwyddebau'r UE yn mynd yn dda ac roedd cyfreithwyr a swyddogion y Cynulliad yn paratoi tabl olrhain er mwyn monitro cynnydd.
4. Nodwyd hefyd gyhoeddiad Llywodraeth Sweden i gynnal refferendwm ar ymuno â'r Undeb Arian Ewropeaidd.
5. Yng nghyfarfod bwrdd Canolfan Ewropeaidd Cymru (WEC) ddydd Llun 9 Rhagfyr byddai gweddill y materion cyfreithiol ac ariannol sy'n ymwneud â chynrychioli Cymru ym Mrwsel yn cael eu hystyried. Byddai hyn yn cynnwys trosglwyddo'r brydles ar adeilad Tîm Cymru, materion cyllidebol a phatrwm cynrychiolaeth. Yn y bôn, byddai cynrychiolaeth o Lywodraeth Cynulliad Cymru, Canolfan Ewropeaidd Cymru ar ei newydd wedd, Cymdeithas Llywodraeth

Leol Cymru (CLlLC) ac o bosib Swyddfa'r Llywydd. Roedd Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gyda WEC a phartneriaid eraill er mwyn datrys materion yn ymwneud â'r strwythur newydd a'r ffordd y bydd yn cael ei ariannu cyn dechrau'r flwyddyn ariannol nesaf. Roedd y Gweinidog yn rhannu pryderon aelodau ynghylch yr angen i sicrhau bod penderfyniadau cadarn yn cael eu cymryd er mwyn ceisio adfer sefydlogrwydd a tawelu meddyliau staff, ond roedd yn hyderus na fyddai'r manylion terfynol yn effeithio ar y strwythur newydd a oedd yn cael ei sefydlu. Canmolodd y pwyllgor y gwaith yr oedd y Dirprwy Brif Weinidog a Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes wedi'i wneud.

6. Nodwyd bod cyfarfodydd defnyddiol wedi cael eu cynnal yn ddiweddar gydag uwch-ddiplomat o'r Unol Daleithiau a chyda Phrif Gonswl Iwerddon a chonsyliaid anrhydeddus eraill. Roedd potensial mawr i ddatblygu gwell cysylltiadau a rhannu gwybodaeth yn well gyda chwnsleriaid anrhydeddus yn Ewrop ac mewn mannau eraill, yn enwedig drwy gysylltu â hwy ar faterion o ddiddordeb cyffredin.
7. Ar y cyfan, roedd Aelodau'n fodlon â fformat cyffredinol adroddiad y Gweinidog er nad oedd yr atodiad yn nodi holl ymweliadau swyddogion ac Aelodau'r Cynulliad â sefydliadau'r UE neu leoliadau gwaith ym Mrwsel.

**Pwyntiau gweithredu:**

Byddai'r Pwyllgor yn cael adroddiad cryno gan gynnwys cymaint o wybodaeth â phosib ar:-

- ymweliad Aelodau a swyddogion y Cynulliad â Brwsel yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a diben yr ymweliadau hynny
- y diweddaraf ar nifer y swyddogion sy'n gweithio yn sefydliadau'r UE
- ymweliadau a gweithgareddau sy'n cynnwys rhanbarthau ac ardaloedd Ewropeaidd eraill (dylid rhannu'r wybodaeth hon â chwnsleriaid anrhydeddus hefyd, lle bo'n briodol).

**<u>14.20 – 14.40</u>**

**Eitem 3**

**Cyflwyniad gan Lysgennad y Weriniaeth Tsiec yn y DU ar ehangu'r UE**

1. Siaradodd Dr Pavel Seifter â'r Pwyllgor, sef Llysgennad y Weriniaeth Tsiec sydd ar fin gadael. Dyma oedd prif bwyntiau'r drafodaeth:-
2. Roedd datganiad ar y cyd ar fasnach yn cael ei lofnodi y diwrnod hwnnw yn Prâg rhwng y Weriniaeth Tsiec ac Andrew Davies, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd, ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru. Roedd llawer yn cydnabod y gallai hyn fod o fudd i'r ddwy ochr.
3. Roedd gan y Weriniaeth Tsiec ddiddordeb mawr mewn cael cynrychiolaeth yng Nghymru ac roedd yn gobeithio penodi conswl anrhydeddus yn fuan.
4. Y brif flaenoriaeth i'r Weriniaeth Tsiec a'i llywodraeth oedd ymuno â'r Undeb Ewropeaidd, a dyma oedd y mater a oedd yn mynd i gael y sylw mwyaf yn yr etholiad cyffredinol nesaf. Roedd peth gwrthwynebiad i ymuno, ond roedd y gwrthwynebwyr yn ofalus wrth ymdrin â'r mater. Nid oedd ond disgwyl i'r Blaid Gomiwnyddol bleidleisio yn ei erbyn mewn refferendwm.
5. Roedd y trafodaethau ar ymuno yn tynnu at eu terfyn ac roedd y broses o fabwysiadu'r Aquis

Communitaire a deddfwriaeth gysylltiedig wedi bod yn boenus ar brydiau. Ar enghraifft, bu trafodaeth frwd ar ariannu'r UE yn y dyfodol, yn enwedig mewn perthynas â'r Polisi Amaethyddol Cyffredin a'r sector amaethyddol. Yr egwyddor a oedd yn sail i ariannu, yn hytrach na'r swm a oedd yn cael ei gynnig, oedd y mater allweddol. Roedd pobl y Weriniaeth Tsiec am gael chwarae teg a byddai'r mater yn effeithio ar ganlyniad y refferendwm ar 15 Mehefin 2003. Roedd y posibilrwydd o ddod yn dalwyr net i'r UE wedi cael ei atal gan becyn Daneg ond roedd rhai manylion yn destun trafod o hyd.

6. Roedd yn bwysig na ddylai'r sector amaethyddol ddioddef oherwydd cystadleuaeth annheg. Roedd cymhorthdal o 25 y cant neu fwy yn cael ei gynnig ond cydnabuwyd bod angen taro cydbwysedd rhwng hyn â chostau is yn y Weriniaeth Tsiec. Roedd poblogaeth wledig y Weriniaeth Tsiec yn 4-5 y cant o'r cyfanswm, ac yn wahanol i Wlad Pwyl, nid oedd amaethyddiaeth ond yn cyfrif am tua 2.5 y cant o'r Cynnyrch Mewnwladol Crynswth. Fel yn y DU, roedd yn bwnc dadleuol o hyd. Er mwyn atal effeithiau negyddol symud o ardal wledig i ardal drefol dylid ailgyfeirio'r llif arian i faes datblygu gwledig i gefnogi cymunedau gwledig.
7. Caiff y refferenda yn y gwledydd sydd am uno eu cydlynu gyda Hwngari'n dod gyntaf, am mai yno y ceir y farn gyhoeddus fwyaf cadarnhaol, ac yna Gwlad Pwyl a'r Weriniaeth Tsiec lle mae'r cyhoedd yn fwy amheus. Ar ôl uno, bydd angen cytuno wedyn ar gytundeb Schengen, ac ar yr amseru o ran ymuno â'r Ewro a'r diogelwch economaidd cysylltiedig.
8. Nid oedd disgwyl i gadarnhad ynghylch y Confensiwn ar Ddyfodol Ewrop gan seneddau cenedlaethol achosi problemau mawr yn y Weriniaeth Tsiec, ond gallai wneud mewn gwledydd eraill megis Awstria.
9. Nododd y Llysgennad a'r pwyllgor y trafodaethau ar wledydd eraill yn ymuno, gan gynnwys sut y gallai datrys problemau'n ymwneud â Cyprus gael effaith bositif ar sefyllfa Twrci a'r posibilrwydd o'r wlad honno'n ymuno â'r UE yn y dyfodol.
10. Bu'r Llysgennad a'r pwyllgor yn trafod pa mor bwysig yw datblygu twristiaeth, a'i ymestyn y tu hwnt i Prâg. Ar ôl cymryd y camau swyddogol ac ystyried hyfywedd ariannol, y gobaith yw y bydd awyrennau'n hedfan yn syth o Gaerdydd i Prâg o 2003, a gallai'r Cynulliad wedyn annnog cwmnïau teithio i hybu teithio dwy ffordd rhwng y ddwy wlad.
11. Diolchodd y Cadeirydd i'r Llysgennad am siarad gerbron y Pwyllgor ac am ei gyfraniad i'r gwaith o hybu cysylltiadau rhwng y ddwy wlad.

**<u>14.40 – 14.45</u>**

**Eitem 4**

**Adroddiad gan y Gweithgor Ehangu**

**Papur: EUR 07-02(p2)**

1. Siaradodd y Dirprwy Brif Weinidog mewn perthynas â'r adroddiad ar y grwp yr oedd yn ei gadeirio.
2. Roedd y Cadeirydd wedi gwahodd y grwp i adolygu ei gylch gorchwyl a'i ddyfodol. Byddai safbwyntiau'n dod i law erbyn 31 Rhagfyr a byddent yn cael eu trosglwyddo i'r pwyllgor gael eu hystyried.
3. Barn y grwp oedd ei fod wedi gwneud cynnydd da yn enwedig o ran nodi partneriaid posibl,

gyda chytundebau â Silesia a'r Weriniaeth Tsiec wedi'u nodi fel enghreifftiau. Dyma oedd yr amser delfrydol i ystyried strategaeth dymor hir i nodi canlyniadau a manteision posibl i Gymru.

4. Byddai cynllun gweithredu diwygiedig ar ehangu yn cael ei lunio er mwyn sicrhau ei bod yn ddogfen fyw a byddai hwn yn cael ei ddosbarthu i'r pwyllgor er gwybodaeth. Teimlwyd y gallai'r grwp helpu i ddod i benderfyniad Cymreig ar bolisi cydlynu yn y dyfodol a dylanwadu ar safbwynt y DU, a hefyd llywio barn y pwyllgor ar hynny.

Pwynt Gweithredu:

- Byddai papur yn amlinellu argymhellion ar gyfer dyfodol y gweithgor a chynllun gweithredu diwygiedig yn cael eu cyflwyno gerbron y pwyllgor mewn cyfarfod yn y dyfodol.

**14.45 – 15.15**

**Eitem 5**

**Adroddiadau ar y seminar ar 'Bolisi Rhanbarthol Ewrop ar ôl 2006 - Llais Cymru' a seminar UE ar ddyfodol Cronfeydd Strwythurol Ewrop**

**Papur: EUR 07-02(p3)**

**Papur: EUR 07-02(p4)**

1. Nodwyd mai ym mis Chwefror y bydd cyfarfod Prif Weinidog Cymru gyda'r Comisiynydd Bagnier ar bolisi cydlyniant yn cael ei gynnal bellach.
2. Roedd seminar Llywodraeth Cynulliad Cymru yn Abertawe ar 18 Hydref yn ffordd ddefnyddiol o ddechrau trafodaeth ar ddyfodol cronfeydd strwythurol yr UE. Gwahoddwyd y rhai oedd yn bresennol i siarad yn blaen ynghylch yr hyn yr oeddent yn credu y byddai ei angen efallai ar ôl 2006. Cafwyd trafodaeth hir am fanteision arian yn dod oddi wrth yr UE neu o'r llywodraeth genedlaethol ond ni ddaethpwyd i unrhyw gasgliadau clir.
3. Roedd Prif Weinidog Cymru wedi siarad ar y pwnc hwn yng nghyfarfod Cydffederasiwn y Rhanbarthau Morol ac Ymylol yn Poitiers ddydd Llun 2 Rhagfyr, lle gofynnwyd iddo gadeirio'r grwp ar gyfarwyddo Cronfeydd Strwythurol ar ôl 2006. Nodwyd hefyd i Brif Weinidog Senedd yr Alban gael ei ethol yn Llywydd o 2003 yng nghynhadledd ddiwethaf y Rhanbarthau â Phwer Deddfwriaethol ac roedd eisoes yn rhan o drafodaethau arweiniad y grwp hwnnw ar y Confensiwn Laeken.
4. Roeddent yn dal i ddisgwyl am bapur ymgynghori'r Adran Diwydiant a Masnach ar ddyfodol Cronfeydd Strwythurol. Byddai'n nodi'r holl opsiynau gan gynnwys anfon arian yn ôl a'r posibilrwydd, ar ôl 2006, y byddai llywodraeth y DU yn gallu cynnig arian nad yw'n deillio o'r UE mewn ffordd a fyddai o fwy o fudd i'r derbynwyr nag arian o Ewrop. Roedd seminar Abertawe wedi darganfod bod rhai'n cefnogi mynediad uniongyrchol i arian o Frwsel, yn hytrach na bod yn ddibynnol ar arian a anfonir yn ôl gan y byddai hyn yn diogelu rhag y risg o golli mynediad i arian o ganlyniad i newidiadau ym mholisi llywodraeth y DU yn y dyfodol.
5. Nodwyd y bydd ardaloedd o Gymru sy'n derbyn arian ar hyn o bryd yn ymddangos ychydig yn fwy llewyrchus ar ôl ehangu, yn nhermau Cynnyrch Mewnwladol Crynswth, ac y bydd modd

gwneud cyfraniadau mwy i'r UE gyda llai o arian yn dod oddi yno.

6. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi sefydlu grwp ar gydlyniant ac mae'n awyddus i weithio gyda'r Cynulliad er mwyn bod yn unedig ar y mater.
7. Byddai papur ar Fframwaith Cymru yn cael ei lunio i adlewyrchu barn pobl hyd yma a rhoi naws Gymreig i broses ymgynghori'r DU. Byddai'n bwysig dosbarthu hwn i bwyllgorau'r Cynulliad ei ystyried, gan gynnwys Materion Ewropeaidd ac Allanol, Datblygu Economaidd ac Amaethyddiaeth cyn diwedd cylch llawn y cyfarfodydd ymgynghori. Byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio tuag at derfyn amser sef y 3ydd adroddiad cydlyniant mewn 12 mis.
8. Roedd yr Aelodau'n teimlo, er efallai bod mwy o ymgynghori â budd-ddeiliaid yng Nghymru nag yn unman arall yn y DU, y gallai budd-ddeiliaid gymryd rhan fwy yn y broses ymgynghori. Roedd yn bwysig darparu platfformiau addas i amrywiaeth o bobl gymryd rhan. Codwyd pryderon am nifer cynrychiolwyr y sector preifat sy'n mynd i seminar Abertawe a phwysigrwydd cynnwys y gymuned fusnes mewn mentrau Amcan 1.
9. Cydnabuwyd bod gan y sector addysg ac awdurdodau lleol bersonél a allai neilltuo amser i fynd i'r afael â'r gwaith o geisio sicrhau arian Amcan 1. Nodwyd na fyddai'r math hwn o gymorth grant yn addas i bawb, ond nid oedd rheswm pam na ddylai fod yn addas i'r sector preifat yn gyffredinol. Bwriadwyd gofyn i Uned Partneriaid Cymdeithasol y Cynulliad am ei chymorth yn hyn o beth. Nodwyd hefyd i'r CBI gydnabod yn y Pwyllgor Datblygu Economaidd bod cynnydd wedi'i wneud o ran cyfeirio arian i brosiectau sy'n cynnwys y sector preifat ac roedd mwy ar y gweill.
10. Cyfeiriwyd at y sylw a roddodd y cyfryngau i adroddiad y Pwyllgor Archwilio ar ddarparu cronfeydd strwythurol yr UE a ph'un a oedd perygl y byddai'r arian yn cael ei dynnu'n ôl. Nodwyd bod targedau Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Chronfeydd Strwythurol Ewrop wedi'u cyrraedd ac, i bob golwg, byddai targedau rhaglenni amaethyddol hefyd yn cael eu cyrraedd cyn Rhagfyr. Roedd yr adroddiad hefyd wedi cydnabod bod cryn gynnydd o ran darparu arian. Byddai'r Cabinet yn ymateb yn ffurfiol i'r adroddiad hwnnw o fewn 30 diwrnod yn unol â'r Rheolau Sefydlog.
11. Croesawyd cyfraniad Jack Malan, o'r Ganolfan Astudiaethau Strategol a Gwerthuso, i seminar Abertawe, yn enwedig ei ffocws ar edrych y tu hwnt i swm yr arian at ansawdd y swyddi yr oedd yn eu creu, yn benodol i'r rheini o grwpiau sydd wedi'u heithrio yn gymdeithasol. Nid mater o fathemateg yn unig oedd hi ond o sicrhau bod arian yn arwain at dwf economaidd cynaliadwy.
12. Siaradodd Lynda Attwell o Swydfa Cyllid Ewropeaidd Cymru mewn perthynas â'r papur ar seminar ym Mrwsel ynghylch gweithgareddau adnoddau dynol ar ôl 2006 yng nghyd-destun ehangu. Nid oedd yn hysbys faint o arian fyddai ar gael i Gronfeydd Strwythurol Ewrop ar ôl 2006 ac roedd agenda Lisbon wedi pennu targedau uchelgeisiol i'w cyrraedd erbyn 2010. Yn y seminar ym Mrwsel, roedd gwahanol wledydd wedi rhoi eu safbwyntiau gerbron. Roedd rhai am godi materion fel tlodi plant a thai, ac eraill am sicrhau mwy o ffocws i'r arian gan ei bod yn debygol y byddai llai o arian ar gael. Ni ddaethpwyd i gasgliadau clir ac roedd o hyd yn broses ymgynghorol.

**Cytunodd y pwyllgor i gael egwyl rhwng 15.15 a 15.35.**

**15.35 – 15.45**

**Eitem 6**

**Adroddiad ar Raglen Waith Flynyddol y Comisiwn Ewropeaidd**

**Papur: EUR 07-02(p5)**

1. Roedd swyddogion yn dadansoddi'r rhaglen waith a byddent yn cyflwyno papur ar gyfer y cyfarfod nesaf i ddangos sut y gallai rhaglen waith y Cynulliad gysylltu â rhaglen waith y Comisiwn.
2. Roedd y Comisiwn wedi nodi eu bod yn rhagweld goblygiadau o ran adnoddau i gyflogi 500 o staff ychwanegol i ddelio â'r ehangu.
3. Nodwyd bod ymdrechion i roi trefn ar drafodaethau polisi, er enghraifft drwy ystyried Cronfeydd Strwythurol ochr yn ochr â diwygiadau eraill. Roedd tystiolaeth hefyd, yn dilyn argymhellion yng nghyd-destun y Papur Gwyn ar Lywodraethu, bod y Comisiwn yn ceisio rhoi esboniad manylach ar y nodau a'r amcanion y tu ôl i'w raglen waith arfaethedig.
4. Roedd gorfodaeth hefyd ar y Comisiwn, bellach, i gynnal asesiadau ar effaith eu cynigion polisi cyn eu lansio.
5. Cyfeiriodd y gwr gwâdd sefydlog o Ganolfan Ewropeaidd Cymru at nifer o faterion strategol y mae'n rhaid eu hwynebu megis cydlyniant, yr oedd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cymryd rhan ynddynt. Roedd elfennau o'r rhaglen hefyd a fyddai'n cael effaith yng Nghymru, fel gweithredu'r 6ed Rhaglen Weithredu Amgylcheddol, a fyddai'n effeithio ar awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus yng Nghymru. Byddai mentrau ar arferion da ym maes dysgu gydol oes ac e-ddysgu o ddiddordeb i ELWa. Roedd Papur Gwyrdd newydd yn cael ei lansio ar entrepreneuriaeth ac roedd nifer o brosiectau pwysig yng Nghymru yn y maes hwnnw, a oedd yn cynnwys Awdurdod Datblygu Cymru a'r sector gwirfoddol. Byddai lansio rhaglen fframwaith UE i ddibenion ymchwil hefyd yn effeithio ar gyrff addysg uwch.
6. Nodwyd tair thema fawr yn y rhaglen waith: ehangu, datblygu cynaliadwy a diogelwch.

Pwynt Gweithredu:

- Byddai dadansoddiad manylach o oblygiadau rhaglen waith y CE yn cael ei gyflwyno fel papur i'w nodi ar gyfer y cyfarfod nesaf.

**15.45 – 15.55**

**Eitem 7**

**Adroddiad o gynhadledd y Rhanbarthau â Phwer Deddfwriaethol yn Florence**

**Papur: EUR 07-02(p6)**

1. Amlinellodd y papur weithgarwch diweddar y Rhanbarthau â Phwer Deddfwriaethol.
2. Roedd y pwyllgor eisoes wedi ystyried datganiad gan y Rhanbarthau â Phwer Deddfwriaethol ar y Confensiwn ar Ddyfodol Ewrop, nad oedd wedi'i newid yn sylweddol gan y sawl a'i llofnododd. Roedd Prif Weinidog Cymru wedi'i lofnodi ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru yng nghynhadledd Florence. Roedd y ddogfen honno wedi hwyluso'r ddeialog â llywodraeth y

DU, ac roedd Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi nodi ei gydymdeimlad â nifer o syniadau sy'n bwysig i Gymru fel rhanbarth a'r cyfleoedd i'r rhanbarthau ddylanwadu ar y drafodaeth.

3. Gan geisio dylanwadu ar y Confensiwn mewn sawl ffordd, drwy'r Rhanbarthau â Phwer Deddfwriaethol, roedd Pwyllgor y Rhanbarthau, yn ogystal â Llywodraeth y DU, yn helpu i godi proffil materion rhanbarthol mewn Aelod-wladwriaethau unigol. Byddai gwaith ar y Confensiwn yn parhau dros y 12 mis nesaf.
4. Nodwyd bod llawer i'w wneud eto mewn perthynas â dylanwad llywodraethau deddfwriaethol. Fel yr adroddwyd yn y cyfarfod diwethaf, roedd siaradwr o Senedd Ewrop wedi'i gwneud yn glir i Bwyllgor y Rhanbarthau y byddai rhanbarthau yn cael eu trin yn yr un ffordd beth bynnag eu maint, neu eu pwerau deddfwriaethol.

**15.55 – 16.05**

**Eitem 8**

**Adroddiad o Gynhadledd Cynulliadau Deddfwriaethol Rhanbarthol Ewrop**

**Papur: EUR 07-02(p7)**

1. Roedd y Llywydd wedi mynd i 6$^{ed}$ cynhadledd flynyddol Llywyddion y Rhanbarthau â Chynulliadau Deddfwriaethol (CALRE, gwefan: www.calre.be) a gyfarfu yn y senedd Fflemeg yng Ngwlad Belg. Cynrychiolwyd saith deg pedwar o ranbarthau mewn wyth aelod-wladwriaeth ac roeddent yn cyfarfod bob blwyddyn yn y cyfarfod llawn. Cyfarfu pwyllgor sefydlog yn ystod y flwyddyn i drefnu'r gynhadledd. Y Llywydd fyddai cynrychiolydd y DU ar y pwyllgor sefydlog.
2. Roedd yr Alban a Gogledd Iwerddon eisoes wedi cymryd rhan weithredol, ond y tro hwn Cymru oedd yr unig gorff o'r DU a oedd yn bresennol a thraddododd y Llywydd araith ar ran Syr David Steel. Nid oedd wedi cymryd rhan yn y trafodaethau ar ddatganiad Brwsel ar 2$^{il}$ ddiwrnod y gynhadledd ond gadawyd y papurau perthnasol gyda'r pwyllgor i'w hystyried. Nid oedd yn briodol i'r Llywydd lofnodi'r cyd-ddatganiadau ar ran y Cynulliad heb eu cyfeirio i'r pwyllgor. Roedd Llywydd Senedd yr Alban yn mabwysiadu dull tebyg o weithredu wrth gyflwyno papurau i'w bwyllgor Ewropeaidd.
3. Wrth ddelio â CALRE, roedd tebygrwydd rhyngddo â chorff cyfatebol y Gymanwlad ar gyfer Llywyddion. Roedd yn briodol cymryd rhan gan ei fod yn gyfle i godi proffil Cynulliad Cymru a chyfrannu i'r drafodaeth. Mae rhanbarthau eraill yn gweld bod cyswllt cryf rhwng Cymru ac Ewrop gyda dwyieithrwydd yn ffactor sylweddol yn y canfyddiad hwnnw. Roedd datblygiadau TG y Cynulliad hefyd o ddiddordeb mawr. Cytunwyd ei bod yn bwysig sicrhau cynrychiolaeth i'r Cynulliad yn y cyfarfodydd hyn.

Pwynt Gweithredu:

- Byddai'r pwyllgor yn ystyried cyd-ddatganiadau'r gynhadledd CALRE i'w llofnodi gan y Llywydd ar ran Y Cynulliad Cymru
- Byddai'r Llywydd yn anfon papurau cyfarfodydd CALRE i'r pwyllgor yn y dyfodol.

**16.05 – 16.15**

**Eitem 9**

**Adroddiad chwemisol Pwyllgor y Rhanbarthau**

**Papur: EUR 07-02(p8)**

1. Rhoddodd Rosemary Butler y newyddion diweddaraf i'r pwyllgor ar waith Pwyllgor y Rhanbarthau. Ers i Albert Bore gymryd y gadair, roedd y gwaith wedi newid yn sylweddol. Roedd mwy o ffocws iddo ac roedd yn fwy cysylltiedig â rhaglen waith y Comisiwn. Roedd siaradwyr pwysig yn dod i'r Pwyllgor, gan gynnwys chwe Chomisiynydd Ewropeaidd.
2. Roedd amserlen y cyfarfodydd yn llawn iawn, ond yn sgil hynny daeth cyfleoedd pwysig i feithrin cysylltiadau â chynrychiolwyr o ranbarthau eraill. Gwerthfawrogwyd cymorth swyddogion gyda'r baich gwaith a'r amserlen drom.
3. Dangoswyd cefnogaeth i gynghorwyr lleol o Wlad y Basg a oedd wedi bod yn cael eu bygwth ac awgrymwyd cynnal cyfarfod yno yn y dyfodol er mwyn dangos cefnogaeth i sefydliadau democrataidd.
4. Roedd cyfarfod cynrychiolwyr o'r DU i'w gynnal yn Birmingham a fyddai'n gyfle i annog gwahanol grwpiau gwleidyddol i sefyll yn un ar rai materion.
5. Roedd yr is-adran Ewropeaidd yn sefydlu gweithgor i raeadru safbwyntiau Pwyllgor y Rhanbarthau i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Roedd Rosemary Butler yn gweithio gyda'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes a'r Gweinidog Diwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg i sicrhau bod y materion polisi a godir yn y Pwyllgor Rhanbarthau yn cael eu trafod.
6. Roedd y materion a gafodd eu trafod yn ddiweddar yn amrywiol iawn ac yn cynnwys dibynnu ar gyffuriau, gwell rheolaeth ar faco, rheoleiddio e-fasnach, y Polisi Amaethyddol Cyffredin, sgiliau a symudedd a dogfen gan y DU ar aduno teuluoedd a oedd yn destun 32 o welliannau gan ddirprwyaeth yr Almaen.
7. Y gobaith oedd, er nad oedd gan Bwyllgor y Rhanbarthau unrhyw bwerau deddfwriaethol, y byddai diwygio sefydliadau'r UE yn y dyfodol o bosib yn rhoi'r pwer iddo fynnu bod y Comisiwn yn dod gerbron Pwyllgor y Rhanbarthau i ymateb i'w safbwyntiau.

Pwynt Gweithredu:

- Byddai'r pwyllgor yn cael papur ar ystyriaeth Pwyllgor y Rhanbarthau o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin pan fyddai ar gael.

**16.15 – 16.20**

**Eitem 10**

**Adroddiadau gan Wahoddedigion Sefydlog**

1. Dywedodd Glenn Vaughan o Ganolfan Ewropeaidd Cymru eu bod wedi cyrraedd rhan olaf negodiadau anodd ar ddyfodol Canolfan Ewropeaidd Cymru. Roedd Awdurdod Datblygu Cymru

wedi rhoi cryn gymorth yn y gorffennol a byddai'r sefyllfa hon yn wahanol yn y dyfodol, gan alw am ailasesiad o'r ffordd y byddai partneriaid yn rhannu'r baich ariannol hwn.

2. Roedd gwerth am arian yn fater allweddol ac roedd cytundebau ffurfiol yn cael eu sefydlu i sicrhau nad oedd pethau'n cael eu gwneud ddwywaith. Roedd cytundeb rhwng Canolfan Ewropeaidd Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar ddelio â materion amgylcheddol . Byddent yn cytuno hefyd ar reolau i sicrhau bod cudd-wybodaeth yn cael ei rhannu'n gyflym ac yn effeithiol rhwng gwahanol gynrychiolwyr ym Mrwsel a swyddogion yng Nghymru.
3. Roedd y cynllun busnes a oedd i'w gyflwyno i Fwrdd Canolfan Ewropeaidd Cymru ar 5 Rhagfyr yn garreg filltir bwysig a oedd yn dangos sut y byddai'r Ganolfan yn edrych a pha adnoddau fyddai ar gael.
4. Cymeradwywyd Glenn Vaughan a Des Clifford am eu gwaith ar y newid a rhoddwyd cydnabyddiaeth i staff Canolfan Ewropeaidd Cymru am barhau i ddarparu gwasanaeth da er gwaethaf ansicrwydd.

**16.20 – 16.25**

**Eitem 11**

**Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**Papur:EUR-06-02(cofnodion)**

1. Cytunodd y pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod diwethaf.
2. Hysbyswyd y pwyllgor y byddai dau gyfarfod yn cael eu cynnal yn ystod Tymor y Gwanwyn, ar 30 Ionawr a 6 Mawrth 2003. Byddai cyfarfod 6 Mawrth yn ystod Wythnos Cymru ym Mrwsel a'r bwriad oedd cynnal y cyfarfod yno er mwyn cefnogi'r digwyddiad a rhoi cyfle i Aelodau Senedd Ewrop gyfrannu.

Pwynt Gweithredu:

- Byddai Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor yn ymgynghori ag aelodau'r pwyllgor ar ymarferoldeb cyfarfod ym Mrwsel.

1. Diolchodd y Cadeirydd i aelodau'r pwyllgor a'r ysgrifenyddiaeth a daeth y cyfarfod i ben am 16.25pm.